



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**CYNGOR YMGYNGHOROL
SEFYDLOG AR ADDYSG
GREFYDDOL**

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2020-2021

NEGES ODDI WRTH AELODAU CYSAG CAERFFILI

Mae blwyddyn academaidd 2020-21 wedi parhau i fod yn amser digynsail i bobl oherwydd effaith pandemig COVID-19. Mae aelodau CYSAG yn meddwl am bawb y mae'r feirws wedi effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi bod yn sâl ac a allai fod wedi colli anwyliaid. Hoffai'r aelodau hefyd ddiolch i bawb yn y sector addysg am y gwaith gwych yr ydych yn ei wneud i roi gofal, cymorth ac addysg i blant a phobl ifanc yng Nghymru er gwaetha'r holl heriau ac ansicrwydd yn ystod ail flwyddyn y pandemig.

Hoffai'r aelodau atgoffa ymarferwyr sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol fod CYSAG yma i'ch helpu gyda chyngor ar addysgu, dysgu ac adnoddau ar gyfer Addysg Grefyddol, yn ogystal â chyngor ar Addysg Grefyddol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae cymorth CYSAG ar gael hefyd ar gyfer y Weithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd.

Mae CYSAG Caerffili yn croesawu gohebiaeth trwy'r cysylltiadau isod:

Rebecca Barrett, Clerc CYSAG Caerffili
Cyfeiriad e-bost: barrerm@caerffili.gov.uk

Hayley Jones, Partner Cwricwlwm (Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)) - Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) De-Ddwyrain Cymru (o fis Tachwedd 2021 ymlaen)
hayley.jones@sewaleseas.org.uk

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG
GREFYDDOL CAERFFILI**

2020 - 2021

CYNNWYS	TUDALEN
ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG	3
1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG	3
1.2 Cyfansoddiad CYSAG	3
1.3 Aelodaeth CYSAG	3
1.4 Swyddogaethau CYSAG	4
1.5 Cyfarfodydd	4
1.6 Dosbarthu'r Adroddiad	4
CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG	5
ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL	9
2.1 Y Maes Llafur Cytûn Lleol	9
2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol	9
2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon	10
ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD	12
3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion	12
3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau	12
3.3 Ymweliadau ag Ysgolion	12
ADRAN 4: MATERION ERAILL	13
4.1 CCYSAGauC	13
4.2 Addysgu am yr Holocost	13
4.3 Y Cwricwlwm i Gymru 2022	14
4.4 Hyfforddiant ar gyfer Aelodau CYSAG	14
4.5 Aelodaeth CYSAG	14
4.6 Cymorth Proffesiynol y GCA i CYSAG Caerffili	15
ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG CAERFFILI HYDREF 2020-HAF 2021	16
ATODIAD 2: RHESTR O'R CYFARFODYDD A'R AGENDÂU	17
ATODIAD 3: DOSBARTHU'R ADRODDIAD	18

ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL CAERFFILI

2020- 2021

ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG

1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) yn ei ardal leol.

1.2 Cyfansoddiad CYSAG

Mae angen y gynrychiolaeth ganlynol ar CYSAG: -

- (i) Enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill a fydd, ym marn yr Awdurdod Lleol, yn adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal mewn ffordd briodol. Ers 2018, ar Gyfarwyddyd Gweinidog Addysg Cabinet Llywodraeth Cymru, mae dyneiddwyr yn gallu bod yn aelodau llawn o'r Pwyllgor hwn yn ogystal â grwpiau cred eraill sy'n cyfateb i gred grefyddol;
- (ii) Cynrychiolwyr cymdeithasau athrawon;
- (iii) Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol.

Penderfynodd yr Awdurdod Lleol y dylai'r CYSAG gynnwys chwe aelod etholedig, saith corff sy'n cynrychioli crefydd a chred a saith cynrychiolydd o gymdeithasau athrawon. At hynny, caniatodd yr Awdurdod i ddau unigolyn arall gael eu cyfethol. Mae'r ddau le cyfetholedig yn wag ar hyn o bryd (gweler 1.3 ar gyfer camau i lenwi swyddi gwag).

1.3 Aelodaeth CYSAG

Mae'r rhestr aelodaeth sy'n dangos y sefyllfa ar gyfer 2020–2021 wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

Er gwneud pob ymdrech i ofyn am gynrychiolaeth gan gyrff crefyddol heblaw Cristnogaeth, mae CYSAG wedi cael cryn drafferth dod o hyd i gynrychiolwyr. Mae'r sefyllfa wedi'i rhwystro fwy fyth gan gyfyngiadau COVID-19 a newidiadau i'r arferion gwaith o ganlyniad. Ar gyfer Pwyllgor A, gofynnwyd am gyngor gan Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru), Sefydliad Onyx a Chyngor Rhyng-ffydd Cymru i geisio cynrychiolwyr. Ymunodd cynrychiolydd o Ddyneiddwyr Cymru â CYSAG am y tro cyntaf yn nhymor yr Hydref 2019. Mae CYSAG Caerffili wedi recriwtio dau aelod newydd i eistedd ar Bwyllgor B yn cynrychioli'r NASUWT.

Mae CYSAG Caerffili yn y broses o gyfethol cynrychiolwyr pobl ifanc i CYSAG er mwyn rhoi llais i ddysgwyr. Bwriedir gofyn am enwebiadau gan y Fforwm Ieuenctid. Yn nhymor yr Hydref 2019 roedd y Cadeirydd wedi mynychu Cabinet Ieuenctid i siarad â'r aelodau am waith CYSAG. Fodd bynnag, bu'n rhaid atal y gwaith o recriwtio pobl ifanc i CYSAG oherwydd COVID-19 ond mae CYSAG Caerffili'n edrych ymlaen at weld pobl ifanc, gobeithio, yn ymuno â'r Cyngor Ymgynghorol ym mlwyddyn academiaidd 2021-2022.

1.4 Swyddogaethau CYSAG

- Cyngori'r Awdurdod Lleol ar addoli a'r addysg grefyddol i'w rhoi yn unol â'r maes llafur cytûn, gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a darparu hyfforddiant i athrawon
- Ystyried a ddylid argymhell bod yr Awdurdod Lleol yn adolygu ei faes llafur cytûn presennol drwy gynnal Cynhadledd ar y Maes Llafur Cytûn
- Ystyried a ddylid amrywio'r gofyniad y dylai addoli crefyddol mewn ysgol sirol fod yn 'lled Gristnogol ei natur' (penderfyniadau)
- Cyflwyno adroddiad ar ei weithgareddau i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru bob blwyddyn.

1.5 Cyfarfodydd

Oherwydd yr holl aflonyddwch oherwydd pandemig COVID-19, ni allai CYSAG gwrdd ond unwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021 a hynny ar 12 Tachwedd 2020. Deliodd Swyddogion ac Aelodau CYSAG â gohebiaeth frys ac ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru drwy e-bost, a chynhaliodd Swyddogion CYSAG drafodaethau anffurfiol drwy Microsoft Teams drwy gydol y flwyddyn academaidd.

Mae CYSAG wedi penderfynu y caiff cyfarfodydd eu cynnal mewn lleoliadau amgen fel ysgolion neu fannau addoli lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, yn ystod blwyddyn academaidd 2021 – 2022, mae'n debygol y bydd angen i gyfarfodydd gael eu cynnal ar blatfform rhithwir Microsoft Teams.

1.6 Dosbarthu'r Adroddiad

Caiff copïau o'r adroddiad hwn eu dosbarthu'n electronig i'r cyrff a'r sefydliadau hynny a restrir yn Atodiad 3. Mae hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan CCYSAGauC.

CRYNODEB GWEITHREDOL O'R CYNGOR A RODDWDYD GAN CYSAG

Yn anochel, effeithiodd y pandemig COVID-19 ar y gwaith a wnaed gan CYSAG Caerffili yn ystod 2020-2021. Mae'r Awdurdod Lleol a CYSAG wedi gallu cynorthwyo ysgolion trwy e-bost a thrwy'r gwaith partneriaeth gyda Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru. Mae Cyngorydd Dysgu Proffesiynol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i CYSAG, sef Ms Paula Webber, wedi bod ar gael i roi cyngor a chymorth i ysgolion ar Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd drwy gydol y cyfyngiadau symud cenedlaethol, ac mae wedi parhau i weithio gyda Chymdeithas Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC) a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG). Yn ogystal, mae Clerc CYSAG wedi parhau i dderbyn a dosbarthu gohebiaeth berthnasol i ysgolion.

Crynodeb o'r cyngor a roddwyd i'r awdurdod lleol gan CYSAG

ADDYSG GREFYDDOL

Mater

Monitro'r ddarpariaeth a'r safonau mewn Addysg Grefyddol

Cam Gweithredu

1. Mae'n arferiad gan CYSAG ystyried a dadansoddi adroddiadau arolygiadau ysgolion. Os oes unrhyw fater yn codi'n ymwneud ag Addysg Grefyddol, diffyg cyflawni gofynion statudol er enghraifft, mae'r awdurdod lleol yn mynd ar ôl y mater. Yn 2020-21 nid oedd CYSAG yn gallu monitro AG yn y ffordd yma.
2. Fel arfer, mae CYSAG yn ymweld ag ysgolion bob blwyddyn i gael cyflwyniad ar Addysg Grefyddol yn yr ysgol. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd yr ymweliadau cynlluniedig hyn o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.
3. Fel arfer, mae CYSAG yn dadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd i amlygu tueddiadau mewn perfformiad wedi'u meincnodi yn erbyn data Cymru gyfan. Trwy'r broses hon, hysbysir ysgolion am ganlyniadau'r dadansoddiad hwn ac mae CYSAG yn gallu codi materion y dylai ysgolion fod yn mynd i'r afael â nhw oherwydd y dadansoddiad hwn. Ni chynhaliwyd y dadansoddiad hwn ym mlwyddyn academiaidd 2021 – 2021 oherwydd bod cyfarfodydd wedi cael eu canslo. Yn ogystal, mae rheoliadau newydd ar waith ynglŷn â chasglu data o ysgolion. Mae CCYSAGauC yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â pha ddadansoddiad pwrpasol o ddata a allai ddigwydd i fonitro ansawdd Addysg Grefyddol mewn ysgolion yn y dyfodol. Yna, bydd CYSAG yn ystyried y ffordd orau o fonitro ansawdd addysg grefyddol mewn ysgolion yng Nghaerffili.

Mater

Bodloni'r gofyniad cyfreithiol i adolygu'r maes llafur cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol bob pum mlynedd a sicrhau bod ysgolion yn rhoi'r maes llafur cytûn ar waith

Cam Gweithredu

1. Yn 2008, cymeradwyodd a mabwysiadodd y Gynhadledd Sefydlog faes llafur cytûn newydd ar gyfer ysgolion yr Awdurdod, a rhoddwyd y maes llafur hwnnw ar waith ym mis Medi 2008. Ym mis Mehefin 2013, cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog ail-fabwysiadu Maes Llafur Cytûn Caerffili ar gyfer Addysg Grefyddol gan gredu y câ'r maes llafur ei adolygu unwaith y byddai rhagor o wybodaeth wedi dod i law am yr asesiad a'r adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol. Ym mis Mai 2019, sefydlwyd Cynhadledd ar y Maes Llafur Cytûn ac ail-fabwysiadwyd maes llafur cytûn 2008.
2. Mae CYSAG wedi cael diweddariadau e-bost ers hynny am ddatblygiadau yn ymwneud â'r Cwricwlwm a Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.
3. Yn 2020-2021 ymatebodd CYSAG i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Canllawiau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn y Cwricwlwm i Gymru 2022.
4. Yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau ar CGM, bydd CYSAG yn cynghori'r awdurdod lleol i gynnal cynhadledd Maes Llafur Cytûn lle bydd mabwysiadu neu addasu'r fframwaith fel Maes Llafur Cytûn Caerffili'n cael ei drafod.

DEUNYDDIAU ADDYSGU

Mater

Sicrhau bod ysgolion yn cael eu hysbysu am adnoddau addas ar gyfer Addysg Grefyddol.

Cam Gweithredu

Anfonwyd y wybodaeth a'r adnoddau canlynol at ysgolion, ac anfonwyd copi o'r wybodaeth at aelodau CYSAG hefyd

1. Anfonwyd Ysgoloriaethau Farmington 2021-2022 at bob ysgol.
2. Anfonwyd Ysgolion Rhwydwaith Dysgu a chynnig o gymorth at bob ysgol.
3. Yn Rhagfyr 2020 anfonwyd arolwg Cymdeithas Cynghorau CYSAG Cymru at bob ysgol er mwyn trafod ac adnabod anghenion dysgu proffesiynol athrawon yng Nghymru, yn enwedig o ran Addysg Grefyddol (CGM) yn y Cwricwlwm i Gymru (2022).

DYSGU PROFFESIYNOL AR GYFER ATHRAWON

Mater

Sicrhau bod athrawon yn gallu cael dysgu proffesiynol priodol.

Cam Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) wedi darparu hyfforddiant penodol ar AG i athrawon uwchradd drwy arweinwyr Ysgolion y Rhwydwaith Dysgu a'r Cynghorydd Dysgu Proffesiynol ar gyfer AG a Chynghorau CYSAG. Yn ystod 2020-21 fe wnaeth y GCA ddarparu Dysgu Proffesiynol yn ymwneud yn benodol â CGM i athrawon cynradd ac uwchradd drwy gyfarfodydd Penaethiaid Dyniaethau Ysgolion y Rhwydwaith Dysgu

a'r Cynghorydd Dysgu Proffesiynol ar gyfer CGM a Chynghorau CYSAG. Roedd ffocws yr hyfforddiant i ymarferwyr Dyniaethau a CGM yn cynnwys gweithredu Cwricwlwm i Gymru 2022, newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar CGM, Dysgu Cyfunol ac Amrywiaeth, a gwella safonau mewn TGAU Astudiaethau Crefyddol. Derbyniodd yr ymarferwyr hefyd ddiweddariad ar waith y Cynghorau CYSAG, Cymdeithas CYSAG Cymru a chyrrff perthnasol eraill. Roedd ffocws hefyd ar roi cyfle i ymarferwyr rannu eu profiadau o geisio gweithio drwy bandemig COVID-19, asesiadau dan arweiniad athrawon ar gyfer TGAU a Lefel A, rhannu arferion da, a chydweithredu ar ddatblygu adnoddau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol.

Yn Rhagfyr 2020 cynhaliodd Cymdeithas Cynghorau CYSAG Cymru arolwg ar-lein er mwyn trafod ac adnabod anghenion dysgu proffesiynol athrawon yng Nghymru, yn enwedig o ran Addysg Grefyddol (CGM) yn y Cwricwlwm i Gymru (2022). Anfonwyd copi o'r arolwg hwn at holl ysgolion Caerffili ar ran CYSAG Caerffili. Roedd Cymdeithas Cynghorau CYSAG Cymru'n pwysleisio bod angen i gymaint o athrawon â phosib gwblhau'r arolwg fel bo'r Gymdeithas yn gallu cyflwyno'r data'n ddiennw i Lywodraeth Cymru. Bydd y data'n dystiolaeth i gefnogi ei phenderfyniadau o ran ariannu dysgu proffesiynol mewn AG (CGM) a sicrhau bod y Dysgu Proffesiynol yn addas i anghenion y gweithlu.

ADDOLI AR Y CYD

Mater

Sicrhau bod ysgolion yn bodloni gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac yn rhoi profiad gwerth chweil i ddisgyblion.

Cam Gweithredu

1. Mae CYSAG yn monitro adrannau adroddiadau arolygu sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (SMSC), ac mae'r Awdurdod Lleol yn cymryd camau dilynol os bydd unrhyw achos o fethu â bodloni gofynion statudol drwy ofyn am eu cynllun gweithredu.
2. Mae CYSAG wedi hysbysu ysgolion am adnoddau a gwefannau priodol sy'n cefnogi addoli ar y cyd mewn ysgolion. Anfonodd CYSAG Caerffili ddogfen CCYSAGauC, sef *Cyngor i Ysgolion yng Nghymru yn ystod y Pandemig COVID-19*, at ysgolion yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol. Mae'r cyngor hwn yn parhau i fod ar gael i ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol ar wefannau Cymdeithas Cynghorau CYSAG Cymru a'r GCA.
3. Penderfynodd CYSAG gynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yn y Fwrdeistref ac arsylwi ar weithred addoli ar y cyd lle y bo modd er mwyn monitro'r broses o fodloni gofynion statudol, darpariaeth ac ansawdd addoli ar y cyd. Oherwydd bod cyfarfodydd wedi'u canslo yn ystod y pandemig COVID-19, nid oedd CYSAG yn gallu arsylwi ar addoli ar y cyd yn ystod y flwyddyn academaidd hon 2020-21.

MATERION ERAILL:

Nod: Sicrhau bod CYSAG yn cael mwy o wybodaeth drwy roi diweddariadau rheolaidd ar faterion lleol a chenedlaethol.

1. Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o CCYSAGauC ac mae'n cael adborth bob tymor o gyfarfodydd y Gymdeithas.
2. Mae Cyngorydd Addysg Grefyddol CYSAG yn aelod o PYCAG (y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol) ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ar ran CYSAG.
3. Mae aelodau CYSAG yn cael hyfforddiant rheolaidd i gael gwybod y diweddaraf am newidiadau deddfwriaethol ac addysgol ac i ddeall rôl a swyddogaeth CYSAGau.
4. Mae CYSAG yn ystyried Addysg yr Holocaust o ddifrif ac yn cynghori'r Awdurdod lleol a'i ysgolion ar hyn.
5. Mae CYSAG wedi cael diweddariadau ar ddatblygu a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r goblygiadau i addysg grefyddol. Rhoddwyd diweddariadau trwy e-bost hefyd o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Mae aelodau CYSAG wedi ymgynghori ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y canllawiau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn y Cwricwlwm i Gymru.
6. Byddai CYSAG, lle y bo'n bosibl, yn cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion yng Nghaerffili er mwyn i'r aelodau ymgyswngi ag Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Eleni ni fu'n bosib cynnal cyfarfod mewn ysgol oherwydd bod cyfarfodydd wedi cael eu canslo a chyfyngiadau COVID-19 yn eu lle.

ADRAN 2: CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL

2.1 Y Maes Llafur Cytûn Lleol

Yn 2008, gwnaeth y Gynhadledd Sefydlog gymeradwyo a mabwysiadu maes llafur cytûn newydd ar gyfer ysgolion yr Awdurdod i'w roi ar waith o fis Medi 2008. Mae cysylltiad agos rhwng y maes llafur cytûn a'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol. Cyflwynwyd deunydd cymorth, gan gynnwys cynlluniau gwaith a ffeiliau *Cynnydd wrth Ddysgu* electronig ar gyfer ysgolion uwchradd, i ysgolion.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13, hysbyswyd CYSAG o'r cyhoeddiad gan y Gweinidog fod adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru ar fin cael ei gynnal. Yn ystod Tymor yr Haf 2013, cymeradwyodd y Gynhadledd Sefydlog ail-fabwysiadu'r maes llafur presennol gan gredu y byddai'r maes llafur yn cael ei adolygu unwaith y byddai canlyniadau'r adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, y trefniadau asesu a'r Cyfnod Sylfaen ar gael.

Ar 20 Mai 2019, cynhaliwyd Cynhadledd Sefydlog i adolygu Maes Llafur Cytûn Caerffili ar gyfer Addysg Grefyddol 2008. Yn y cyfarfod, cytunwyd i ail-fabwysiadu'r Maes Llafur Cytûn presennol nes i'r cwricwlwm newydd gael ei roi ar waith yn 2022.

Anfonwyd copi o'r Maes Llafur Cytûn presennol at ysgolion. Hysbyswyd ysgolion y dylent barhau i ddilyn y maes llafur hwn nes iddynt glywed yn wahanol.

Mae CYSAG wedi cael diweddariadau gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygu'r fframwaith ategol i gefnogi Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng Nghwricwlwm i Gymru 2022. Rhoddodd CYSAG adborth ar ddrafft a fydd yn ategu Cwricwlwm i Gymru 2022 yn ystod Tymor yr Hydref. Mae CYSAG yn aros i ymgynghori ar y fframwaith cyn iddo gael ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Gobeithir y bydd CYSAG yn gallu mabwysiadu neu addasu'r ddogfen hon fel y maes llafur cytûn newydd ar gyfer ysgolion Caerffili.

2.2 Safonau mewn Addysg Grefyddol

Mae CYSAG wedi mabwysiadu nifer o strategaethau ar gyfer monitro'r safonau a gyflawnir gan ysgolion yr Awdurdod mewn perthynas ag addysg grefyddol, gan gynnwys y canlynol.

Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Bu'n arferiad gan CYSAG graffu ar y rhannau perthnasol yn adroddiadau Estyn ar arolygiadau ysgolion ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili ac os oes unrhyw fater yn codi'n ymwneud ag addoli ar y cyd, er enghraifft diffyg cyflawni gofynion statudol, mae'r awdurdod lleol yna'n mynd ar ôl y mater gan ofyn am eu cynllun gweithredu. Ni ddigwyddodd y gwaith dadansoddi hwn ym mlwyddyn academaidd 2020-21 oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19 a gorfod canslo cyfarfodydd CYSAG.

Mae CYSAG yn benderfynol o barhau i ddefnyddio adroddiadau arolygu i fonitro bod gofynion statudol yn cael eu cwrdd a defnyddio pa bynnag sylwadau sy'n berthnasol.

Canlyniadau Arholiadau 2020

Yn y gorffennol, mae canlyniadau arholiadau TGAU a TAG UG/Safon Uwch a gyflawnwyd gan ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd yn yr Awdurdod wedi cael eu dadansoddi a'u hystyried yn ystod cyfarfodydd CYSAG. Byddai dadansoddiad tair blynedd yn cael ei gynnal fel y gellid cymharu, ac amlygu tueddiadau. Dadansoddiwyd niferoedd derbyn carfan hefyd, a chymharwyd hyn â ffigurau Consortia a Chymru gyfan (lle'r oeddent ar gael). Ni ddadansoddiwyd data canlyniadau arholiadau 2020 am ddau reswm. Yn gyntaf, bu newid i'r canllawiau cenedlaethol ynglŷn â sut yr adroddir am ganlyniadau a sut y defnyddir data. Ar hyn o bryd, mae CCYSAGauC yn aros am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut y bydd unrhyw ddadansoddiad o ddata yn cael ei gasglu a'i adrodd wrth symud ymlaen. Yn ail, mae data fel arfer yn cael ei ddadansoddi yn ystod cyfarfod CYSAG Tymor y Gwanwyn. Ni chynhaliwyd y cyfarfod hwn oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19.

Ni chynhaliwyd ychwaith unrhyw arholiadau TGAU na Lefel A yn ystod haf 2020, gyda'r graddau'n cael eu rhoi ar sail asesiadau athrawon. Y cyngor presennol i athrawon AG yn parhau gyda'u trefniadau presennol nes bydd y canllawiau ar yr asesiadau wedi eu cyhoeddi.

Yn ystod 2021-22 mae CYSAG yn bwriadu trafod sut y bydd yr awdurdod lleol yn gallu rhoi gwybodaeth ystyrlon i CYSAG am ansawdd Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol yn CA4 yn ei ysgolion.

2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon

Dysgu Proffesiynol

Mae Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru yn hysbysebu ei gyrsiau drwy DPP ar-lein. Penododd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg Ms Paula Webber yn Gynghorydd Dysgu Proffesiynol amser llawn ar gyfer Addysg Grefyddol a CYSAG o fis Medi 2018. Cynigiodd Ms Webber gymorth wedi'i deilwra ar gyfer Addysg Grefyddol yn rhanbarth yn ystod 2020-2021.

Yn Rhagfyr 2020 cynhaliodd Cymdeithas Cynghorau CYSAG Cymru arolwg ar-lein er mwyn trafod ac adnabod anghenion dysgu proffesiynol athrawon yng Nghymru, yn enwedig o ran Addysg Grefyddol (CGM) yn y Cwricwlwm i Gymru (2022). Anfonwyd copi o'r arolwg hwn at holl ysgolion Caerffili ar ran CYSAG Caerffili. Roedd Cymdeithas Cynghorau CYSAG Cymru'n pwysleisio bod angen i gymaint o athrawon â phosib gwblhau'r arolwg fel bo'r Gymdeithas yn gallu cyflwyno'r data'n ddienw i Lywodraeth Cymru. Bydd y data'n dystiolaeth i gefnogi ei phenderfyniadau o ran ariannu dysgu proffesiynol mewn AG (CGM) a sicrhau bod y Dysgu Proffesiynol yn addas i anghenion y gweithlu.

Ysgolion Rhwydwaith Dysgu ar gyfer Addysg Grefyddol

Mae gwaith Ysgolion y Rhwydwaith Dysgu ym mhob consortia wedi parhau drwy 2020-21 a'r canllawiau a'r cymorth gan y Rhwydwaith, ynghyd â'r gwaith a wnaed rhwng cydweithwyr ar draws y Cynghorau CYSAG a NAPfRE, wedi'i raeadru i athrawon AG.

Deunyddiau Addysgu

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar allu CYSAGau i ddarparu'r cyngor y byddent yn ei roi i ysgolion fel arfer. Fodd bynnag, cynigiwyd y cyngor canlynol:

Ysgoloriaethau Farmington

Darparodd CYSAG wybodaeth i ysgolion Caerffili am Ysgoloriaethau Farmington 2021 - 2022, sydd am ddim i athrawon Addysg Grefyddol yn y Deyrnas Unedig. Gall ymarferwyr astudio unrhyw agwedd ar Addysg Grefyddol a ddymunant, ond ffeirir ymgeiswyr sy'n gallu dangos bod eu gwaith o werth uniongyrchol i addysgu Addysg Grefyddol mewn ysgolion. Bydd yr Ysgoloriaeth yn talu am gost hyfforddiant, bwyd a llety lle y bo'n briodol, cludiant lleol hanfodol a, thrwy negodi â'r ysgol, cyflog athro cyflenwi/athrawes gyflenwi hyd at bwynt 6 ar y brif raddfa gyflog. Gall Ysgoloriaethau yn yr ysgol/gartref fod ar ffurf diwrnodau astudio, er enghraifft am un diwrnod yr wythnos dros dymor neu dros flwyddyn neu ar gyfer cyfnodau parhaus hyd at uchafswm o 30 diwrnod.

Gellir dilyn Ysgoloriaethau yn y brifysgol fel bloc hyd at wyth wythnos neu ar ffurf diwrnodau astudio hyd at 30 diwrnod. Mae rhagor o wybodaeth i ysgolion ar gael ar [wefan Sefydliad Farmington](#) neu drwy anfon e-bost at: farmington@hmc.ox.ac.uk

ADRAN 3: CYNGOR AR ADDOLI AR Y CYD

3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion

Bu'n arferiad gan CYSAG graffu ar y rhannau perthnasol yn adroddiadau Estyn ar arolygiadau ysgolion ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili ac os oes unrhyw fater yn codi'n ymwneud ag addoli ar y cyd, er enghraifft diffyg cyflawni gofynion statudol, mae'r awdurdod lleol yna'n mynd ar ôl y mater gan ofyn am eu cynllun gweithredu. Ni ddigwyddodd y gwaith dadansoddi hwn ym mlwyddyn academaidd 2020-21 oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19 a gorfod canslo cyfarfodydd CYSAG.

Mae CYSAG yn benderfynol o barhau i ddefnyddio adroddiadau arolygu i fonitro bod gofynion statudol yn cael eu cwrdd a defnyddio pa bynnag sylwadau sy'n berthnasol.

Cyngor ar Addoli ar y Cyd yn ystod y Pandemig COVID-19

Yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, gofynnodd rhai ysgolion yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru am gymorth gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar addoli ar y cyd gan fod ysgolion ar gau a bod dysgu'n digwydd yn ddigidol. Ffurfiodd Cyngorydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i CYSAG weithgor gyda chydweithwyr yn CCYSAGauC. Lluniwyd dogfen ganllaw, sef 'Cyngor i Ysgolion Cymru ar Addoli ar y Cyd yn ystod y Pandemig COVID-19'. Dosbarthodd CYSAG Caerffili y ddogfen hon i bob ysgol yn y fwrdeistref. Mae hefyd ar gael ar wefan Cymdeithas Cyngorau CYSAG Cymru ac mae'r canllawiau yn y ddogfen yn aros yn gyfredol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cymorth ymarferol gyda phlatfformau digidol. Mae hefyd yn canolbwyntio'n gryf ar sut gallai addoli ar y cyd helpu dysgwyr a'u teuluoedd yn ystod yr adeg anodd hon.

3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau

Ni chafwyd unrhyw geisiadau gan ysgolion am benderfyniadau o ran diddymu'r gofynion i sicrhau bod gweithredoedd addoli ar y cyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf Gristnogol eu natur.

3.3 Ymweliadau ag Ysgolion

Mae CYSAG yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir i'r aelodau arsylwi ar weithredoedd addoli ar y cyd mewn ysgolion. Ni chafodd aelodau gyfle i gynnal cyfarfod CYSAG mewn ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21 oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

ADRAN 4: MATERION ERAILL

4.1 CCYSAGauC

Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o CCYSAGauC ac mae cynrychiolwyr wedi mynychu cyfarfodydd y Gymdeithas. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2020-21, cyflwynwyd adroddiadau llawn i CYSAG ar y materion a ystyriwyd yng nghyfarfodydd CCYSAGauC a chynhaliwyd trafodaethau llawn. Mae CYSAG yn croesawu'r gwaith rhagweithiol a wneir gan Gymdeithas CCYSAGauC i fynd i'r afael â materion sydd â goblygiadau i Addysg Grefyddol a sicrhau bod y CYSAGau sy'n aelodau o'r Gymdeithas yn cael eu hysbysu'n llawn. Mae cynghorydd proffesiynol CYSAG, Ms Paula Webber, a oedd yn dal swydd ar y Pwyllgor Gweithredol, yn cynrychioli CYSAG ar Bwyllgor Gweithredol CCYSAGauC. Mae CYSAG Caerffili wedi cael adborth rheolaidd gan Ms Webber a'r rhai sy'n cynrychioli CYSAG yng nghyfarfodydd CCYSAGauC. Oherwydd pandemig COVID-19, bu'n rhaid canslo cyfarfodydd Cymdeithas Cynghorau CYSAG Cymru yn nhymor y gwanwyn a'r haf cyn ail-ddechrau eu cynnal yn rhithiol ym mis Hydref 2020 gan bob awdurdod lleol CYSAG yn eu tro.

Cafodd CYSAG Caerffili'r pleser o gynnal cyfarfod Tymor y Gwanwyn Cymdeithas Cynghorau CYSAG Cymru'n rhithiol ar 23 Mawrth 2021. Rhoddwyd croeso a chyflwyniad cynnes i'r Gymdeithas gan y Cynghorydd John Taylor gan gydnabod y gwaith anhygoel a wnaed gan ysgolion ac athrawon mewn amgylchiadau mor anodd. Diolchodd y Cynghorydd Taylor i Rebecca Barrett am fod yn glerc effeithiol ac effeithlon i CYSAG Caerffili ynghyd â Paula Webber sy'n darparu cymorth proffesiynol. Dywedodd ei fod yn cefnogi'r bwriad i gyfethol dau o bobl ifanc a fyddai'n ymuno â CYSAG cyn bo hir i roi llais disgyblion i'r Pwyllgor.

Cafwyd croeso hefyd gan Paul Warren (yr Arweinydd Strategol Gwella Ysgolion) a oedd, fel cyn-bennaeth, yn llwyr werthfawrogi'r heriau aruthrol y mae athrawon wedi eu hwynebu dros y misoedd diwethaf ac yn dal i'w hwynebu, gan gydnabod yr holl waith cynllunio oedd angen i athrawon ei wneud i addysgu disgyblion o bell yn ystod y pandemig, yr effaith ar ddisgyblion a lefel amrywiol y gefnogaeth i addysgu o gartref a'r effaith ar y gymuned ehangach hefyd. Cyfeiriodd Mr Warren at y newidiadau sy'n digwydd mewn AG wrth ddod yn CGM, fydd yn orfodol i bob disgybl 3-16 oed heb unrhyw hawl gan rieni i dynnu eu plant allan yn y dyfodol, a pha mor bwysig oedd bod CGM yn wrthrychol, beirniadol a chynhwysfawr ei natur. Bydd hyn yn gofyn am fwy o CPD nag erioed o'r blaen. Dywedodd Mr Warren fod angen i aelodau CYSAG fod â'r sgiliau i dywys a llunio polisi ar lefel genedlaethol. Diolchodd i bawb a fu'n gwneud eu gorau dros ddysgwyr ar draws Cymru.

E-bostiwyd CYSAG gan Gymdeithas Cynghorau CYSAG Cymru ar 13 Ebrill 2021 yn gofyn i'r aelodau anfon enwebiadau i Bwyllgor Gweithredol y Gymdeithas. Ni dderbyniwyd dim gan CYSAG Caerffili a hysbyswyd y Gymdeithas o hynny.

Derbyniodd y Gymdeithas un enwebiad ar gyfer un lle ar y Pwyllgor Gweithredol drwy ei Gynghorau CYSAG eraill a phenodwyd Kathy Riddick i'r Pwyllgor Gweithredol yng Nghyfarfod Blyneddol y Gymdeithas ar 16 Mehefin 2021.

4.2 ADDYSG AM YR HOLOCOST

Adnoddau Diwrnod Cofio'r Holocaust 2021

Cynhelir Diwrnod Cofio'r Holocaust ar 27 Ionawr bob blwyddyn ac mae'n amser i gofio'r miliynau o bobl a lofruddiwyd yn ystod yr Holocaust fel rhan o Erledigaeth y Natsïaid a

hefyd yn y digwyddiadau hil-laddiad erchyll yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur. Y thema ar gyfer 2021 oedd “**Bydd yn oleuni yn y tywyllwch**” oedd yn gofyn i bawb feddwl am wahanol fathau o ‘dywyllwch’, er enghraifft erlid pobl oherwydd eu hunaniaeth, camwbyodaeth, gwrthod cyfiawnder; a gwahanol ffyrdd o ‘fod yn oleuni’, er enghraifft drwy wrthwynebu, dangos cydsafiad, achub a datgelu anwireddau.

Oherwydd y pandemig a'r cyfnod clo yn Ionawr 2021, bu'n anodd coffáu'r digwyddiad ac am y tro cyntaf yn hanes Diwrnod Cofio'r Holocost, bu'n rhaid cynnal seremoni Diwrnod Cofio'r Holocost 2021 ar-lein gyda Chymru hefyd yn cynnal ei seremoni Diwrnod Cofio'r Holocost ddigidol ei hun. Dangosodd Gyngor Caerffili eu hymrwymiad i goffáu Diwrnod Cofio'r Holocost drwy oleuo Tŷ Penallta, Sefydliad Glowyr y Coed Duon a Chastell Caerffili i ddangos eu cyd-safiad. Roedd gwefan a gwefannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor hefyd wedi coffáu'r digwyddiad gan awgrymu ffyrdd y gallai pobl goffáu Diwrnod Cofio'r Holocost a chodi ymwybyddiaeth yn eu cartrefi eu hunain.

Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost 2022, bydd CYSAG yn ysgrifennu at bob ysgol i'w hannog i goffáu'r diwrnod mewn rhyw ffordd, gan nodi'r thema a bod adnoddau addysgol am ddim ar yr Holocost ar gael yn [the Holocaust Memorial Day website](#) – yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, astudiaethau achos, deunyddiau gwasanaeth / addoli ar y cyd a thafleuni gwaith addas i blant cynradd hyd at fyfyrwyr ôl-16 oed.

4.3 Y CWRICWLWM I GYMRU 2022

Mae'r cynigion ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru 2022 wedi parhau i fynd o nerth i nerth ac ym mis Gorffennaf 2021 cynhaliodd CYSAG Caerffili ymgynghoriad e-bost gan ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y canllawiau ar gyfer dylunio a darparu CGM gorfodol cyn y dyddiad cau ar 16 Gorffennaf 2021. Bydd yr ymateb hwn yn cael ei adrodd i gyfarfod mis Hydref 2021 CYSAG i bwrpas nodi.

Ymgynghoriadau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Yn 2021 anfonwyd manylion at CYSAG Caerffili, fel un o'r ymgynghoreion statudol, yng nghyswllt cynigion Ysgolion 21^{ain} Ganrif Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer Ysgol Arbennig a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ac Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, gan wahodd yr Aelodau i ymateb fel unigolion.

4.4 HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU CYSAG

Mae aelodau CYSAG yn derbyn hyfforddiant ar Rolau a Chyfrifoldebau CYSAG ar ddechrau pob blwyddyn academaidd a bydd hyn yn cael ei drefnu ar gyfer 2022.

4.5 MEMBERSHIP OF SACRE

Mae'r rhestr aelodaeth bresennol sy'n dangos y sefyllfa ym mis Awst 2021 wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

Mae'r swyddi canlynol yn wag ar hyn o bryd:

Swydd gyfetholedig x 2 – mae CYSAG wedi cytuno i gyfethol dau gynrychiolydd iuenctid i'r Pwyllgor ac mae'r Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod o Gabinet Iuenctid y

Cyngor i siarad am waith CYSAG ac i gasglu unrhyw fynegiant cychwynnol o ddi-ddordeb gan y bobl ifanc oedd yn bresennol. Bu'n rhaid gohirio'r gwaith ar hyn oherwydd pandemig COVID-19 ond y gobaith yw y bydd CYSAG yn gallu penodi dau berson ifanc i'r Pwyllgor yn 2022.

Pwyllgor A – Mae gwaith yn parhau i geisio llenwi'r un swydd wag sydd ar ôl fel cynrychiolydd ffydd ddi-Gristnogaeth.

Pwyllgor B – Mae dwy swydd wag o hyd (Cynrychiolydd yr NUT a Chynrychiolydd ASCL, a bydd gwaith yn cael ei wneud gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn 2022 i geisio enwebiadau gan yr undebau perthnasol i'w llenwi.

Swyddogion CYSAG

Mae Mr Paul Warren a Ms Carin Quinn wedi parhau yn eu rôl fel Swyddogion Addysg Awdurdod Lleol ar gyfer CYSAG. Mae Ms Paula Webber, Cynghorydd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) i CYSAG ar AG wedi parhau i roi cymorth Dysgu Proffesiynol i CYSAG Caerffili yn ardal y GCA. Mae Miss Rebecca Barrett yn parhau i fod yn Glerc i CYSAG ac mae'r Aelodau'n ddiolchgar iddi am ei gwaith sy'n hanfodol i sicrhau bod CYSAG Caerffili'n gweithio'n effeithiol ac effeithlon.

4.6 CYMORTH PROFFESIYNOL Y GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG I CYSAG CAERFFILI

Cafodd CYSAG wybod yng Ngorffennaf 2021 y byddai Ms Paula Webber (Cynghorydd ar AG i CYSAG) yn gadael y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ddiwedd mis Awst 2021. Bydd yn chwith iawn i CYSAG o orfod colli Ms Webber ar ôl ei chyfraniad aruthrol i waith y Cynghorau CYSAG yn ystod ei hamser gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg a chyn hynny fel ymgynghorydd AG annibynnol. Mae CYSAG yn hynod werthfawrogol o'i chymorth proffesiynol diflino a'i chyngor amhrisiadwy i CYSAG ac ysgolion Caerffili dros y pedair blynedd y bu'n Gynghorydd AG i CYSAG gan ddefnyddio cyfoeth ei phrofiad helaeth o weithio gyda Chynghorau CYSAG eraill, Cymdeithas Cynghorau CYSAG Cymru a NAPfRE, ymhlith grwpiau eraill, a bydd yn chwith iawn ar ei hôl. Hoffai CYSAG ddymuno'r gorau i Ms Webber gyda'i hymdrechion newydd a phob llwyddiant iddi yn ei rôl newydd.

Mae Ms Hayley Jones bellach wedi'i phenodi drwy'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg fel y Partner Cwricwlwm newydd ar gyfer y Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog a CGM, gan ddechrau yn ei swydd ym mis Tachwedd 2021. Hoffai CYSAG estyn croeso cynnes iawn i Ms Jones ac edrychwn ymlaen at weithio gyda hi yn y dyfodol.

ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG CAERFFILI HYDREF 2020-HAF 2021

NWADAU CRISTNOGOL AC ENWADAU CREFYDDOL ERAILL – PWYLLGOR A

Mr Martyn Western (Archesgobaeth Gatholig)
Mrs Enfys Hawthorn (Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig)
Mrs Janet Jones (Yr Eglwys yng Nghymru) (Is-gadeirydd CYSAG)
Yr Uwchgaptlen Paula Hubbard (Byddin yr Iachawdwriaeth)
Mr Michael Gray (Eglwys y Methodistiaid)
Mr Ken Chamberlain (Dyneiddwyr Cymru)

Swydd wag – grŵp ffydd crefydd anghristnogol

CYMDEITHASAU ATHRAWON – PWYLLGOR B

Ysgolion Cynradd

Mrs Tara Lloyd (NAHT)
Ms Meinir Jones (UCAC)

Ysgolion Uwchradd

Miss Helen Bartley (ATL)
Ms Katherine McCullough (NASUWT)
Mrs Claire McLaughlan (NASUWT)

Swydd wag – Cynrychiolydd NUT
Swydd wag – Cynrychiolydd ASCL

YR AWDURDOD LLEOL – PWYLLGOR C

Y Cynghorydd Mrs E.M. Aldworth
Y Cynghorydd A. Collis
Y Cynghorydd Mrs G.D. Oliver
Y Cynghorydd Mrs T. Parry
Y Cynghorydd J. Simmonds
Y Cynghorydd J. Taylor (Cadeirydd CYSAG)

AELODAU CYFETHLEDIG

Dwy swydd wag – ar gyfer cynrychiolwyr pobl ifanc ar CYSAG

SWYDDOGION

Mr Paul Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)
Ms Carin Quinn (Ymarferydd Ysgolion Iach)
Ms Paula Webber (Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Cynghorydd Addysg Grefyddol CYSAG Caerffili)

CLERC CYSAG

Miss Rebecca Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)
E-bost: barrerm@caerffili.gov.uk

ATODIAD 2: RHESTR O'R CYFARFODYDD A'R AGENDÂU

Cyfarfod o'r CYSAG Caerffili
12fed Tachwedd 2020 am 2pm
Microsoft Teams

PRIF EITEMAU'R AGENDA

- Croeso
- I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- Datganiadau o Ddiddordeb.
- Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Caerffili (CYSAG) a gynhaliwyd ar 23ain Hydref 2019 a materion sy'n codi.
- I dderbyn a nodi ymatebion CYSAG Caerffili i'r Ymgynghoriadau Diweddar ar Gwricwlwm Cymru 2022.
- Derbyn a nodi'r cofnodion o gyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru yn Aberaeron ar 21 Tachwedd 2019.
- Derbyn a nodi Adroddiad Gweithgareddau 2019-2020 Cymdeithas CYSAG Cymru.
- Cynrychiolaeth yng nghyfarfod CCYSAGauC:
Gwanwyn – Caerffili (i gael ei gadarnhau)
Haf – Powys (i gael ei gadarnhau)

Sylwer bod cyfarfodydd CYSAG Caerffili a drefnwyd ar gyfer Tymor y Gwanwyn a Thymor yr Haf wedi cael eu canslo o ganlyniad i effaith y pandemig COVID-19.

ATODIAD 3: DOSBARTHU'R ADRODDIAD

Caiff copiâu eu hanfon yn electronig at y cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan CCYSAGauC er mwyn i bartïon sydd â diddordeb ei lawrlwytho.

Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cadeirydd Craffu Addysg

Cyfarwyddwr Rhanbarthol SEWC

Swyddog Addysg Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Addysg Grefyddol

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob Ysgol yn y Fwrdeistref Sirol

Pob aelod o CYSAG

Prifathrawon a Chyrff Llywodraethu pob Coleg yn y Fwrdeistref Sirol

Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC)

Y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cynulliad Cymru

ESTYN